**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**

**19 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Gwener, 19 Gorffennaf 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Tina Claydon, David Coggins Cogan, Bill Crease, Gladys Healey, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Billy Mullin, Vicky Perfect a Jason Shallcross |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Roedd y Cynghorydd Andrew Parkhurst yn bresennol i arsylwi |
| **YMDDIHEURIAD:** | Y Cynghorwyr Arnold Woolley a Christine Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor); Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth); Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol a Chaffael); Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Rheolwr Cyllid Strategol; Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygiad Sefydliadol; Rheolwr Corfforaethol - Cynghorydd Rhaglen Gyfalaf ac Asedau a Phartneriaethau Strategol ar gyfer cofnod rhif 22 |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm |

## 13. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 14. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad am y camau gweithredu o'r cyfarfodydd blaenorol.

Mewn perthynas â'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod ym mis Mawrth, byddai copïau o ymatebion gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael eu dosbarthu i'r Pwyllgor.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

15. **RHAGLEN WAITH** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd Raglen Waith y Pwyllgor i'w hystyried, gan nodi bod angen diweddaru teitlau Aelodau'r Cabinet ar y Cylch Gorchwyl.

Yn unol â'r cais, byddai swyddogion Cyllid yn rhannu dadansoddiad o arian grant a gwariant y Cyngor ar weithredu parthau 20mya.

Byddai adroddiad yn cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd / Rhagfyr 2024 i roi manylion gwariant a rheolaethau ariannol o fewn y portffolio Asedau. Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Waith, fel y'i diwygiwyd; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

16. **STRATEGAETH A CHYLLIDEB ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2025/26** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar gam cyntaf datblygu'r gyllideb ar gyfer 2025/26 cyn ei ystyried gan y Cabinet.

Byddai ymatebion ar wahân yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor ar (i) y rhesymeg dros ariannu cludiant i ddisgyblion o'r tu allan i'r sir i Ysgol Uwchradd Gatholig Caer yn hytrach na defnyddio darpariaeth leol; (ii) y broses ar gyfer ymdrin â phobl sy'n datgan eu bod yn ddigartref heb unrhyw gysylltiad lleol; a (iii) manteision posibl yn deillio o Reoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 2000.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhelliad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y sylwadau yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2024/25, yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet pan fydd yn ystyried yr adroddiad.

17. **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (CANLYNIAD) A RHAGLEN GYFALAF 2023/24 (CANLYNIAD)** **(Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Rheolwr Cyllid Strategol adroddiadau ar ganlyniad terfynol 2023/24 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Rhaglen Gyfalaf cyn i'r Cabinet eu hystyried.

Byddai ymatebion ar wahân yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor ar (i) y gost o brynu cerbydau ar gyfer adnewyddu contract y Fflyd; (ii) canran y cronfeydd wrth gefn yn erbyn refeniw a ddelir gan awdurdodau lleol eraill at ddibenion cymharu; (iii)

gwybodaeth am y tâl llety gwasanaeth a rennir gan Gyngor Gwynedd o dan Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi; a (iv) manylion costau Tlodi Bwyd o £0.042m a danddatganwyd yn flaenorol mewn Tai a Chymunedau. Hefyd, gofynnwyd am ddiweddariad ar opsiynau lliniaru digartrefedd ar gyfer cyfarfod mis Medi.

Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 (sefyllfa derfynol), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet; ac

(b) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Rhaglen Gyfalaf 2023/24 (sefyllfa derfynol), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

**18. MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2024/25 (DROS DRO) (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad a oedd yn rhoi'r trosolwg cyntaf o sefyllfa monitro'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

Diwygiwyd yr argymhelliad i adlewyrchu'r drafodaeth hon.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2024/25 (dros dro), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet; a

(b) Cyfeirio sylwadau ar y broses ar gyfer ymdrin ag adroddiadau eithriedig i Bwyllgor y Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd i'w hystyried.

*Ar y pwynt hwn, cafwyd seibiant byr yn y cyfarfod.*

**19. LLYWODRAETHU AR GYFER Y RHAGLEN DRAWSNEWID (Dolen i'r recordiad)**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar y strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer y rhaglen drawsnewid, gyda'r nod o wneud arbedion i helpu i gwrdd â'r bwlch ariannu yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Gofynnodd Arweinydd y Cyngor i gael gwneud cofnod o'i ddiolch i'r Cadeirydd am gymryd rhan yn y broses.

Yn ystod y drafodaeth, cafodd gwelliant ei gyflwyno, a'i golli. Pleidleisiwyd am welliant dilynol, a oedd yn adlewyrchu pryderon ynghylch adolygu cynnydd ar ganlyniadau ac adnoddau yn rheolaidd. Nododd swyddogion y cais am ddiweddariadau ar y rhaglen i nodi 'safon methiant' i ganfod unrhyw risgiau posibl.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r strwythur llywodraethu arfaethedig ac yn ei argymell i'r Cabinet ymrwymo i adnoddau Blwyddyn 1 (2024/25) y rhaglen; a

(b) Bod y Pwyllgor yn addasu ei raglen waith ei hun er mwyn ystyried y rôl y bydd yn ei chwarae yn y rhaglen drawsnewid.

## 20. STRATEGAETH DDIGIDOL - ADOLYGIAD ARCHWILIO CYMRU, ARGYMHELLION A CHAMAU GWEITHREDU ARFAETHEDIG (Dolen i’r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad ar ganlyniad yr archwiliad ar Strategaeth Ddigidol y Cyngor, er mwyn cael cymeradwyaeth i’r cynllun gweithredu arfaethedig mewn ymateb i argymhellion gan Archwilio Cymru.

Gwnaed awgrym ar gyfer eitem ar Egwyddor 2 y Datganiadau Digidol Lleol o fewn Strategaeth Ddigidol y Cyngor.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cabinet yn nodi'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor ar y cynllun gweithredu arfaethedig.

## 21. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A’R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi ei heithrio yn rhinwedd paragraff 14 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

## 22. CYLLID GRANT Y TRYDYDD SECTOR

Cyflwynodd y Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau ddiweddariad ar gyllid y trydydd sector; Y Gist Gymunedol a Chyllid Strategol, a oedd yn cynnwys cynnydd ar roi camau gweithredu o'r adolygiad diwethaf ar waith, ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

Cytunodd swyddogion i geisio eglurder ynghylch cyllid y Gist Gymunedol, er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y swm a nodir yn yr adroddiad a’r swm ar wefan y Cyngor. Ar y sail honno, cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyllid y trydydd sector, ynghyd â'r cynnydd a wnaed wrth weithredu adolygiad blaenorol;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi argymhelliad o adolygiad pellach o Gyllid Strategol i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd, gan gynnwys y rhai a amlygwyd gan yr Archwiliad Mewnol diweddar. Yn ogystal, bod adroddiadau pellach yn cael eu dwyn yn ôl i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith fynd rhagddo er mwyn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf; a

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi parhad cynllun cyllid grant y Gist Gymunedol, yn amodol ar adolygiad sydd i'w gynnal yn 2024/25, i gynnwys y cylch gorchwyl.

## 23. AELODAU O’R WASG A’R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 2.25pm)

**Y Cadeirydd**

……………………………………………………

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol eu gweddarlledu, a gellir eu gwylio drwy ymweld â’r llyfrgell weddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home